Croniclo'r Cymalau

RHIFYN NAW
EBRILL 2005

CYLCHLYTHYR
COFRESTRFA GENEDLAETHOL Y CYMALAU
WWW.NJRCENTRE.ORG.UK

Gwelliannau i Ddull Cofnodi Technegau Arferol y Llawfeddyg

Cyfleuster Swmp-Lwytho -
Yn Barod i'w Ddefnyddio

Yn Dod yn Fuan -
Ystadegau CGC Ar-lein

Byw ei Bywyd
i'r Ymylon -
Persbectif Claf



Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau
National Joint Registry
www.njrcentre.org.uk

Mae'r Cylchlythyr hwn ar gael hefyd oddi wrth Ganolfan y CGC yn Saesneg

CYNNWYS

CYNNWYS	2
DYDDIADUR ACHLYSURON	2
CIP AR NEWYDDION DIWEDDARAF CGC	2
GWELLIANNAU I DDULL COFNODI TECHNEGAU ARFEROL Y LLAWFEDDYG	3
YN DOD YN FUAN - YSTADEGAU CGC AR-LEIN	4
CYFLEUSTER SWMP-LWYTHO – YN BAROD I'W DDEFNYDDIO	4 & 5
GRŴP ASTUDIO MESUR Y DEILLIANT Y MAE CLEIFION YN ADRODD ARNO (PROMS)	5
CANIATÂD CLEIFION CGC – DOLEN BWYSIG WRTH GYFLAWNI EI NODAU	6
AROLWG BUDD-DDEILIAID CGC O OFYNION ADRODD YN Y DYFODOL	7
DIWRNOD CYFLENWYR CGC	7
HYFFORDDIANT A CHEFNOGAETH	7
BYW EI BYWYD I'R YMYLON - PERSBECTIF CLAF	8

Cip ar Newyddion Diweddaraf CGC

Cau systemau mewnbynnu data ISD f1
Diddymwyd y gallu i fewnbynnu data ISD f1 ar 1 Ebrill 2005. Casglwyd ynghyd yr holl gofnodion ISD f1 a oedd yn dal i fod yn y modd golygu ar ôl 31 Mawrth (h.y. y cofnodion hynny nad oeddent yn gyflawn) er mwyn gallu eu harchwilio pe byddai angen, er enghraifft, pe byddai cydran yn cael ei hadalw.

I gael rhagor o gyngor, cysylltwch â'ch Cydlynydd Archwilio Rhanbarthol neu gallwch ffonio Llinell Gymorth CGC.

Isadeiledd Allwedd Cyhoeddus
O haf 2005 ymlaen, fe fydd Modwl Diogelwch Caledwedd Isadeiledd Allwedd Cyhoeddus yn caniatáu i ddefnyddwyr gael eu dilysu ar-lein, gan alluogi llawfeddygon i adfer data sy'n eu galluogi i adnabod y cleifion. Bydd mwy o fanylion yn dilyn wrth i'r gwaith datblygu fynd rhagddo.

Cyflwyno data CGC gan ddefnyddio cyfleuster swmp-lwytho
Mae fersiwn prawf o'r cyfleuster swmp-lwytho ar gael bellach, sy'n caniatáu i fuddgarfanau brofi eu systemau TG a chreu'r ffeil swmp-lwytho XML y mae ei hangen i allu defnyddio'r cyfleuster. Os oes gan eich ysbyty ddiddordeb mewn defnyddio'r cyfleuster swmp-lwytho i gyflwyno data, yna cysylltwch â Llinell Gymorth CGC. Gwelwch dudalennau 4 a 5 i gael mwy o fanylion.

Dyddiadur Achlysuron

Bydd CGC yn y canlynol:

Cynhadledd Arbenigedd NATN
10 - 11 Mehefin 2005
Business Design Centre
Llundain

Cynhadledd Flynyddol BOA
21 - 23 Medi 2005
International Convention Centre
Birmingham

Cyhoeddiad nesaf y cylchlythyr: Mehefin 2005

Os ydych am gyfrannu at y Cylchlythyr yma, cysylltwch â Llinell Gymorth CGC ar 0845 345 9991, neu anfonwch e-bost at **enquiries@njrcentre.org.uk**. Rhowch wybod inni beth fyddech chi'n ei gael yn ddefnyddiol, a'r hyn y byddech am i ni ei gynnwys yn rhifyn nesaf y Cylchlythyr.

Mae'r holl wybodaeth a'r dogfennau am CGC ar gael ar wefan CGC.
www.njrcentre.org.uk

Os nad yw'r we ar gael ichi ei defnyddio, cysylltwch â Llinell Gymorth CGC i dderbyn copi drwy'r e-bost neu'r post.

The NJR Centre
329, Harwell
Didcot
Oxfordshire OX11 0QJ

Ffôn: 0845 345 9991
Ffacs: 0845 345 9992
E-bost: enquiries@njrcentre.org.uk

Gwelliannau i Ddull Cofnodi Technegau Arferol y Llawfeddyg

Datblygwyd dull newydd o gofnodi technegau arferol llawfeddygon mewn ymateb i geisiadau oddi wrth lawfeddygon i'r technegau hynny fod yn agosach at amrywiol weithdrefnau eraill ar gyfer cleifion. Fe fydd y technegau yma ar gael o 3 Mai 2005.

Pam mae CGC yn cofnodi technegau arferol y llawfeddyg

Mae gan System Mewnbynnu Data CGC gyfleuster i addasu'r system fel bod techneg arferol y llawfeddyg yn cael ei dewis yn awtomatig. Datblygwyd y cyfleuster hwn yn benodol i helpu i gyfyngu ar fewnbynnu data ailadroddus. Mae cofnodi technegau arferol y llawfeddyg yn CGC o flaen llaw yn golygu bod rhai o'r meysydd data eisoes wedi'u llenwi cyn dechrau cofnodi triniaeth newydd.

Math o dechnegau arferol y llawfeddyg sydd ar gael

Ar y dechrau, ni ellid sefydlu ond un dechneg arferol ar gyfer triniaethau ar y glun, ac un ar gyfer triniaethau ar y ben-glin. O Fai 3 2005, fe fydd y dewis o dechnegau arferol yn cynnwys:

Y GLUN

1. Cymal newydd prosthetig cyfan am y tro cyntaf gan ddefnyddio sment
2. Cymal newydd prosthetig cyfan am y tro cyntaf HEB ddefnyddio sment
3. Gosod wyneb newydd ar y cymal am y tro cyntaf
4. Cymal newydd prosthetig cyfan am y tro cyntaf, nad yw'n rhan o unrhyw gategori arall (e.e. croesryw)

Y BEN-GLIN

1. Cymal newydd prosthetig cyfan am y tro cyntaf gan ddefnyddio sment
2. Cymal newydd prosthetig cyfan am y tro cyntaf HEB ddefnyddio sment
3. Cymal pen-glin newydd un-gondyl
4. Cymal padellol-forddwydol newydd
5. Cymal newydd prosthetig cyfan am y tro cyntaf, nad yw'n rhan o unrhyw gategori arall (e.e. croesryw)

Lle bo modd, fe fydd technegau arferol sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y system yn cael eu dyrannu'n awtomatig i un o'r mathau o weithdrefn a ddangosir uchod. Fodd bynnag, ceir yn y gronfa ddata nifer fechan o dechnegau arferol anghyflawn na fydd modd pennu categori ar eu cyfer. Yn anffodus, fe fydd yn rhaid dileu setiau data o'r fath pan gyflwynir y gwelliant hwn i'r system.

Rhoddir gwybod yn ysgrifenedig yn ystod mis Ebrill i'r llawfeddygon y bydd hyn yn effeithio arnynt fel y bydd ganddynt ddigon o amser i gwblhau eu technegau arferol cyfredol cyn y lansio ar 3 Mai. Fe fydd angen i lawfeddygon sicrhau bod yr holl dechnegau arferol anghyflawn wedi'u cwblhau erbyn 25 Ebrill er mwyn caniatáu dyrannu'r technegau arferol newydd yn barod ar gyfer y lansio.

Galluogi Rheolwyr Data Ysbyty CGC i helpu llawfeddygon

Yn wreiddiol, nid oedd System Mewnbynnu Data CGC yn caniatáu i lawfeddygon greu eu technegau arferol ond trwy eu cyfrifon defnyddiwr CGC eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r holl lawfeddygon wedi cwblhau eu techneg arferol ar-lein, ac mae hyn wedi arwain at beth dryswch o bryd i'w gilydd wrth fewnbynnu'r data, gan arwain at gofnodion anghyflawn na ellid eu cyflwyno i CGC.

I geisio helpu datrys y broblem, newidiwyd pethau fel bod modd i Reolwyr Data Ysbyty (RhDY) greu techneg arferol y llawfeddyg ar-lein. Golyga hyn y gall RhDY fewnbynnu technegau arferol ar ran y llawfeddygon hynny sy'n gysylltiedig â'u hysbyty trwy eu cyfrif RhDY eu hunain (lle mae'r llawfeddyg wedi cytuno ar hynny).

Cofnodi techneg arferol y llawfeddyg

Datblygwyd ffurflenni papur i RhDY gadw cofnod cychwynnol o dechneg arferol y llawfeddyg. Mae cyflwyno technegau arferol ychwanegol yn golygu y bydd y ffurflenni cyfredol yn cael eu hadolygu. Fe fydd



Ffigwr 1 – sgrîn Techneg Arferol (clun)

ffurflenni ISD f1 yn cael eu diddymu'n llwyr – ar yr un pryd ag y bydd llwybr mewnbynnu data ISD f1 yn cael ei ddileu. Fe fydd y ffurflenni canlynol ar gael ar 3 Mai 2005:

- Techneg arferol ar gyfer **CYMAL PEN-GLIN NEWYDD AM Y TRO CYNTAF**
- Techneg arferol ar gyfer **CYMAL CLUN NEWYDD AM Y TRO CYNTAF**

Fe fydd angen ffurflen ar wahân ar gyfer pob un o'r triniaethau a ddewisir ar gyfer y claf. Mae'r ffurflenni'n dangos pa adrannau y mae angen eu cwblhau ar gyfer pa dechneg.

Fe fydd angen i RhDY sicrhau eu bod yn defnyddio fersiwn diweddaraf y ffurflenni, sydd ar gael o wefan CGC: y cyfan y mae angen ei wneud yw dilyn y cyswllt o'r parth Healthcare Providers i dechneg arferol y llawfeddyg. O 3 Mai, fe fydd y ffurflenni ar gael hefyd yn uniongyrchol o sgrîn techneg arferol y llawfeddyg yn y System Mewnbynnu Data, gwelwch Ffigwr 1 uchod.

Help a chyngor

Mae'r canllawiau diweddaraf ar sut i osod techneg arferol y llawfeddyg ar y System Mewnbynnu Data ar gael o wefan CGC (**www.njrcentre.org.uk**). Neu, pe byddech am gael hyfforddiant penodol, cysylltwch â'ch Cydlynydd Archwilio Rhanbarthol neu ffoniwch Linell Gymorth CGC ar **0845 345 9991**.

Yn Dod yn Fuan - Ystadegau CGC Ar-lein

Fe fydd ystadegau CGC ar gyfer ysbytai GIG a chanolfannau triniaeth GIG yng Nghymru a Lloegr ar gael ar wefan CGC yn gynnar fis Mai 2005.

Mae trafodaethau ar y gweill â chynrychiolwyr o'r grwpiau gofal iechyd annibynnol a'r Fforwm Gofal Iechyd Annibynnol i ddod o hyd i ffordd o symud ymlaen er mwyn gallu cynnwys data o'r sector annibynnol hefyd ar-lein. NJR StatsOnline fydd yr enw ar y cyfleuster gwe hwn i ddangos ystadegau CGC.

Fe fydd yr ystadegau hyn ar gael ar gyfer ysbyty neu ganolfan driniaeth a enwir:

- cyfanswm y llawdriniaethau wedi'u cwblhau a gyflwynwyd i CGC
- nifer y triniaethau wedi'u cwblhau a gyflwynwyd: cluniau
- nifer y triniaethau wedi'u cwblhau a gyflwynwyd: pengliniau
- cyfradd caniatâd cleifion (%).

Fe fydd yr ystadegau uchod yn cael eu diweddaru o fis i fis, a byddant yn cynrychioli data ar gyfer misoedd calendr cyfan yn unig (ac nid rhan-fisoedd). Fe fydd y data'n cael eu cofnodi yn ôl dyddiad eu cyflwyno i CGC.

Golyga hyn na fydd yr ystadegau'n adlewyrchu'r dyddiad y cynhaliwyd y llawdriniaeth o angenrheidrwydd.

Fe fydd pob ymwelydd â'r wefan yn gallu gweld a llwytho i lawr y wybodaeth uchod ar gyfer pob ysbyty a chanolfan driniaeth sy'n cyfrannu at CGC. Yn yr un modd, yn achos ysbytai a chanolfannau triniaeth sy'n gymwys ar gyfer CGC, ond nad ydynt wedi dychwelyd data, ni chofnodir unrhyw gyflwyniadau.

Cyfleuster chwilio

Fe fydd modd chwilio NJR StatsOnline yn llawn er mwyn dangos ystadegau ar gyfer:

- ardal ddaearyddol benodol
- Awdurdod Iechyd Strategol penodol
- Ymddiriedolaeth GIG benodol
- ysbyty neu ganolfan driniaeth benodol.

Fe fydd defnyddwyr yn gallu adfer ystadegau ar gyfer y cyfnodau canlynol:

- cyfanswm am 2004 (1 Ionawr - 31 Rhagfyr)
- cyfanswm cyfredol wrth i bob mis ddod i ben yn 2005
- cyfanswm fesul mis unigol yn 2005.

Fe fydd yr holl ystadegau'n cael eu darparu ar ffurf ffeil CSV (gwerthoedd wedi'u rhannu â chomas). O ddechrau mis Mai 2005, fe fydd modd cyrchu NJR StatsOnline yn uniongyrchol o hafandudalen gwefan CGC yn **www.njrcentre.org.uk**

Cadw cyfrif o'r data a gyflwynwyd gan ysbytai a chanolfannau triniaeth

Dylai'r datblygiad fod yn ffynhonnell ddefnyddiol i helpu ysbytai a chanolfannau triniaeth asesu p'un a yw'r data sy'n cael eu cyflwyno i CGC yn adlewyrchu'n fanwl-gywir y llawdriniaethau a geir yn yr ysbyty neu'r ganolfan driniaeth i osod cymalau clun a phen-glin newydd. Yn yr un modd, fe fydd cleifion yn gallu gweld sawl llawdriniaeth i osod cymal clun neu ben-glin newydd sydd wedi'i chofrestru ar CGC gan yr ysbyty neu'r ganolfan driniaeth leol.

Help a chyngor

Fe fydd cyflwyno data i CGC yn ei helpu i wella gofal orthopaedig trwy archwiliad clinigol a datblygu arferion da. Pe byddech am gael unrhyw wybodaeth am yr ystadegau CGC sydd ar gael, neu am drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â CGC, cysylltwch â'ch Cydlynydd Archwilio Rhanbarthol.

Cyfleuster swmp-lwytho - yn barod i'w ddefnydd

Bu Canolfan CGC yn gweithio'n agos â rhai ysbytai a darparwyr meddalwedd i ddatblygu'r cyfleuster swmp-lwytho. Bydd y cyfleuster hwn yn caniatáu i ysbytai gasglu data CGC i'w system TG eu hunain a'u trosglwyddo i gronfa ddata CGC yn rheolaidd. Mae swmp-lwytho yn osgoi mewnbynnu data ddwywaith ac felly yn helpu i gynnal ansawdd y data.

Cofrestru eich diddordeb

Os ydych eisoes yn defnyddio system TG ysbyty i gasglu data a chithau am ddefnyddio'r cyfleuster swmp-lwytho, neu'n ystyried gwneud hynny i gyflwyno data i CGC, yna cysylltwch â'r Llinell Gymorth i gofrestru eich diddordeb. Fe fydd hyn yn caniatáu inni gydweithio'n agos â chi i sicrhau bod eich system yn gwbl addas ar gyfer y meddalwedd, a'ch bod yn cael y newyddion diweddaraf ar yr holl ddatblygiadau i'r cyfleuster swmp-lwytho.

Os gwnewch gais, byddwn yn darparu manylion sut i fewngofnodi i fersiwn prawf y system. Mae angen gwneud hynny er mwyn rhoi prawf ar allu system yr ysbyty i gyd-fynd â'r cyfleuster, ac i sicrhau cyflawnrwydd y data er mwyn gallu trosglwyddo'r data yn eu cyfanrwydd.

Swmp-lwytho'r data i CGC

Unwaith y byddwch wedi defnyddio'r cyfleuster swmp-lwytho data, a'r defnyddiwr wedi mewngofnodi i System Mewnbynnu Data CGC, fe fydd sgrîn y ddewislen yn dangos dau ddewis newydd, fel y gwelir yn Ffigwr 1:

1 Upload XML Submission - mae'r dewis hwn yn caniatáu ichi lwytho dogfen Swmp-Lwytho XML.
2 View Bulk Upload Submissions – mae'r dewis hwn yn rhestru cyflwyniadau swmp-lwytho blaenorol yr ysbyty ac yn manylu ar ganlyniadau eu prosesu, e.e. yn dangos unrhyw gamgymeriadau a allai fod wedi digwydd yn y prosesu.

Grŵp Astudio Mesur y Deilliant y mae Cleifion yn Adrodd Arno

Sefydlwyd Grŵp PROMS (y Grŵp Ymgynghori ar Adborth Cleifion – PFAG gynt) fis Chwefror 2004, i lunio argymhellion eglur i'r Pwyllgor Llywio ar gyfer gwneud cynnydd ag adborth cleifion a'r modd o'i roi ar waith.

Dyma aelodau'r grŵp:

Paul Gregg Is-Gadeirydd, Pwyllgor Llywio CGC

Jan van der Meulen Uned Effeithiolrwydd Clinigol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon

Alex MacGregor Iechyd y Cyhoedd ac Epidemioleg, Prifysgol East Anglia

Colin Esler Cydlynydd Clinigol Rhanbarthol, Leicestershire, Northamptonshire and Rutland Strategic Health Authority

Richard Parkinson Cydlynydd Clinigol Rhanbarthol, Cheshire and Merseyside Strategic Health Authority

John Timperley Cydlynydd Clinigol Rhanbarthol, South West Peninsula Strategic Health Authority

Leigh Mapledoram Rheolwr Rhaglen, Canolfan CGC

Martin Pickford Cynghorydd Orthopaedig, Canolfan CGC

David Helson Rheolwr PROMS, Canolfan CGC.

Dyma amcanion y Grŵp:

- cytuno ar ddiben proses Adborth Cleifion CGC
- cytuno ar faint y sampl i gyflawni'r diben hwnnw
- pennu pa mor aml y dylid cynnal arolwg y cleifion, h.y. y cyfnod cyn cynnal archwiliad dilynol ar y claf
- pennu pryd y dylid cynnal rhaglen beilot arolwg y cleifion a'i lansio
- cytuno ar offer a methodoleg y broses
- llunio argymhellion eglur i Bwyllgor Llywio CGC.

Mae Grŵp PROMS wedi argymell dull dau-gam o weithredu:

Dechrau ar astudiaeth PROMS 'Interim' fis Mawrth 2005 fydd y cam cyntaf. Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys ceisio adborth oddi wrth oddeutu 10,000 o gleifion a gafodd gymal clun newydd a 10,000 o gleifion a gafodd gymal pen-glin newydd o leiaf 12 mis yn ôl. Cyhoeddir canlyniadau'r astudiaeth hon yn yr 2il Adroddiad Blynyddol fis Medi 2005.

Mae'r ail gam yn cynnwys astudiaeth fanylach fyth o'r garfan, yn cwmpasu cyfnod o oddeutu 18 mis. Y gobaith yw y byddwn yn gallu ystyried yn llawn yr astudiaeth ar wahân o Ganolfan Driniaeth yr Adran Iechyd, a meddwl am ffyrdd o gydweithio â hi.

io



Ffigwr 1 – Sgrîn Dewislen System Mewnbynnu Data CGC

Help a chyngor

Mae canllawiau pellach ar sut i baratoi i ddefnyddio'r cyfleuster swmp-lwytho ar gael oddi wrth eich Cydlynydd Archwilio Rhanbarthol, neu gallwch ffonio Llinell Gymorth CGC ar **0845 345 9991**.

Mae canllawiau i ddefnyddwyr ar gael o wefan CGC (**www.njrcentre.org.uk**); dilynwch y cysylltau i 'bulk upload'. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyfarwyddiadau fesul cam a rhai awgrymiadau defnyddiol ar sut i gyflwyno data. Nid yw'r canllawiau ond yn berthnasol i ddefnyddwyr sydd eisoes wedi defnyddio'r cyfleuster swmp-lwytho.

Caniatâd Cleifion CGC – dolen bwysig wrth gyflawni ei nodau

Er mwyn i CGC fod ar ei mwyaf effeithiol, mae'n rhaid iddi gasglu cymaint â phosibl o gofnodion sy'n cynnwys manylion personol y cleifion (enw cyntaf, cyfenw, dyddiad geni, cod post a rhif GIG). Rhaid i gleifion roi eu caniatâd i CGC gofnodi eu manylion personol (Deddf Diogelu Data, 1998).

Mae cofnodi manylion personol claf yn galluogi CGC:

- i wybod pa gleifion sydd wedi derbyn prosthesis penodol pe darganfyddid yn ddiweddarach bod diffygion arnynt
- i gysylltu triniaeth y claf am y tro cyntaf a'i driniaethau diweddarach, fel bod modd darganfod pa mor hir y mae impiad penodol yn para (Rhif GIG sy'n darparu'r cysylltiad)
- i wahodd cleifion i fod yn rhan o unrhyw broses adborth ddiweddarach er mwyn gallu asesu boddhad y claf.

Rhifau GIG a chodau post

Mae'n bwysig nodi bod y rhif GIG yn cysylltu llawdriniaeth ar y claf i osod cymal newydd am y tro cyntaf ag unrhyw lawdriniaeth adolygol ddilynol. Mae'r cyswllt hwn yn hanfodol bwysig i CGC er mwyn gallu darganfod pa mor hir y mae impiad yn para a'r deilliannau i'r claf ar ôl gwerthuso'r cymal newydd.

Mae Gwasanaeth Olrhain Strategol y GIG yn defnyddio cod post y cartref i lenwi'r rhifau GIG sydd ar goll pan na wyddys beth ydynt ar adeg mewnbynnu'r data. Dyna pam fod cyflwyno'r cod post mor bwysig os na wyddys y rhif GIG pan fydd y claf yn rhoi caniatâd. Mae cofnodi'r data hyn hefyd yn ein galluogi i wahodd cleifion i gymryd rhan mewn arolwg o foddhad.

Dangosodd Adroddiad Blynyddol 1af CGC mai 65.1% yn unig o rifau GIG oedd wedi'u cofnodi ar gyfer y cleifion a roddodd ganiatâd. Fodd bynnag, roedd gan 23 ysbyty rif GIG ar gyfer pob claf, sy'n dangos ei bod yn bosibl cyrraedd lefelau cyfanrwydd uchel.

Cyfradd caniatâd cleifion

Mae ffigwr 1 yn dangos sut y mae'r gyfradd caniatâd cleifion a gofnodwyd yn CGC wedi bod yn gwella dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen i rai ysbytai fynd ati o hyd i ymgorffori proses gadarn ar gyfer casglu caniatâd cleifion. Adroddir ar y gyfradd ganiatâd cleifion ar gyfer ysbytai unigol yn NJR StatsOnline.



Taflen cleifion

Mae Canolfan CGC wedi cynhyrchu taflen i gleifion (gweler uchod) y gallai ysbytai fod am ei defnyddio fel rhan o'u proses caniatâd cleifion CGC. Mae'r daflen yn cyflwyno dibenion CGC, ei manteision a phwysigrwydd cofnodi manylion personol yn CGC.

Canolfan Orthopaedeg Nuffield (NOC) yn Rhydychen oedd un o'r ysbytai cyntaf i fanteisio ar y daflen, a bu'n ei defnyddio'n rheolaidd ers 1 Mawrth 2005.

I wneud cais am gopïau o'r daflen, cysylltwch â Llinell Gymorth CGC ar 0845 345 9991 neu sgwrsiwch â'ch Cydlynydd Archwilio Rhanbarthol.

Ffigwr 1 - Y duedd yng nghyfradd caniatâd cleifion i CGC

*Nifer y llawdriniaethau â chaniatâd y cleifion, o'i chymharu â chyfanswm y llawdriniaethau, yw'r gyfradd caniatâd cleifion, ac mae wedi'i dangos fel canran.

Arolwg Budd-ddeiliaid CGC o Ofynion Adrodd yn y Dyfodol

Mae Canolfan CGC wrthi'n cynnal arolwg budd-ddeiliaid i gasglu gwybodaeth ynghylch gofynion adrodd budd-ddeiliaid CGC yn y dyfodol. Fe fydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddatblygu'r strategaeth ac i gynllunio ar gyfer adrodd i fudd-ddeiliaid.

Mae'r grwpiau budd-ddeiliaid canlynol yn cymryd rhan yn yr arolwg:

- llawfeddygon orthopaedig
- Cydlynwyr Clinigol Rhanbarthol CGC
- sefydliadau cleifion
- rheolwyr ysbytai (gan gynnwys Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Clinigol yn ogystal â RhDY CGC)
- rheoleiddwyr: Asiantaeth Rheoleiddio Moddion a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ac Asiantaeth Prynu a Chyflenwi'r GIG (PASA)
- cyflenwyr a gwneuthurwyr cydrannau orthopaedig.

Mae'r arolwg wedi'i lunio yn benodol at ddibenion pob grŵp budd-ddeiliaid a'r nod yw ceisio adborth ar eu gofynion adrodd sylfaenol ynghyd ag unrhyw adrodd ychwanegol yr hoffent ei weld yn y dyfodol. Gofynnir i bob grŵp am eu dewis fformat adrodd, ynghyd â mecanweithiau darparu ac amlder yr adrodd.

Mae'r arolwg hefyd yn gofyn beth yr hoffent ei weld yn 2il Adroddiad Blynyddol CGC sydd i gael ei gyhoeddi fis Medi 2005.

Data a gasglwyd hyd yma.
Ers Tachwedd 2004, mae Canolfan CGC wedi anfon yr arolwg at y grwpiau canlynol:

- grŵp o'r cyhoedd (clwb Goring a Streatley Probus)
- cysylltiadau cynrychiolwyr cleifion ar grŵp cysylltiadau cleifion y Gymdeithas Orthopaedeg Brydeinig (BOA)
- llawfeddygon orthopaedeg (aelodau o BOA a BOTA)
- Cydlynwyr Clinigol Rhanbarthol CGC
- cyflenwyr impiadau orthopaedig
- rheolwyr ysbytai.

Mae arolwg y cyflenwyr a rhai rheoleiddwyr wedi'i gwblhau, ac roedd ymateb y llawfeddygon yn dda. Anfonwyd arolwg at reolwyr ysbytai fis Ionawr, ac rydym wrthi'n casglu ynghyd eu hymatebion.

Rydym hefyd wrthi'n adolygu ac yn dadansoddi'r adborth a gafwyd hyd yma. Fe fydd hyn yn ffurfio'r strategaeth a'r broses gynllunio ar gyfer adrodd i fudd-ddeiliaid CGC yn y dyfodol. Fe fydd y broses strategaeth yn ystyried:

- cyfrinachedd a chyfyngiadau diogelwch ar y data
- glynu wrth nodau CGC
- protocolau i sicrhau manwl-gywirdeb y data/dadansoddiadau a bod y wybodaeth yn cael ei darparu i'r rhai sydd ag awdurdod i'w derbyn yn unig
- rhyngberthynas grwpiau budd-ddeiliaid a'u gofynion adrodd
- blaenoriaethau ar gyfer adrodd ar bethau penodol sydd angen sylw brys.

DIWRNOD CYFLENWYR CGC

Mynychodd cynrychiolwyr cyflenwyr impiadau orthopaedeg ac aelodau o Gymdeithas Diwydiannau Gofal Iechyd Prydain (ABHI) Ddiwrnod Cyflenwyr CGC ar 16 Rhagfyr 2004. Rhoddodd y diwrnod gyfle i rannu'r newyddion diweddaraf â chyflenwyr ar ddatblygiadau TG o ran mewnbynnu data, a'r trefniadau parhaus ar gyfer codi treth ac adrodd. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd adborth oddi wrth Asiantaeth Prynu a Chyflenwi'r GIG (PASA)/Y Panel Gwerthuso Data Orthopaedeg (ODEP), yn amlinellu'r wybodaeth y mae ei hangen i gyflawni gofynion ODEP ar gyfer asesu cydymffurfiad y cynnyrch â meini prawf Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE).

Ysgogodd gweithdy rhyngweithiol gryn dipyn o adborth ar ofynion adrodd yn y dyfodol. Roedd yr adborth hwn yn ffurfio rhan o arolwg budd-ddeiliaid CGC.

Roedd yr achlysur yn arbennig o ddefnyddiol, ac o ganlyniad, y bwriad yw cynnal Diwrnod Cyflenwyr CGC yn flynyddol. Cynigiwyd cynnal y cyfarfod nesaf tua diwedd 2005 yn dilyn cyhoeddi'r 2il Adroddiad Blynyddol.

HYFFORDDIANT A CHEFNOGAETH

Mae Canolfan CGC yn parhau yn ymroddedig i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff ysbytai ac unedau orthopaedeg. Darperir yr hyfforddiant yn uniongyrchol trwy eich Cydlynydd Archwilio Rhanbarthol. Bydd eich Cydlynydd yn eich helpu i asesu anghenion eich ysbyty ac i drefnu i ddarparu hyfforddiant priodol.

Gall Canolfan CGC ddarparu:

- cyngor ar sefydlu a gweithredu CGC yn eich ysbyty
- y cyngor diweddaraf ar arfer da wrth gynnal ansawdd data CGC
- hyfforddiant ymarferol ar System Mewnbynnu Data CGC
- llawlyfr i ddefnyddwyr y System Mewnbynnu Data
- dogfennaeth, taflenni a phosteri i gefnogi'r defnyddiwr
- help a chefnogaeth barhaus ar bob agwedd o CGC.

Gellir cysylltu â'ch Cydlynydd Archwilio Rhanbarthol dros y ffôn neu drwy'r e-bost, a bydd ar gael i ymweld â'ch ysbyty yn ôl y galw. Cysylltwch â'ch Cydlynydd i gofrestru eich gofynion hyfforddi.

Gorllewin Trudy Craig
E-bost: trudy.craig@aeat.co.uk
Ffôn: 0870 190 6653

Gogledd Ddwyrain Ryan Shirlow
E-bost: ryan.shirlow@aeat.co.uk
Ffôn: 0870 190 6695

Gogledd Orllewin Joanne O'Neil
E-bost: jo.oneil@aeat.co.uk
Ffôn: 0870 190 6696

Canoldir Amanda Hoare
E-bost: amanda.hoare@aeat.co.uk
Ffôn: 0870 190 6147

Y De Ddwyrain Richard Coombes
E-bost: richard.coombes@aeat.co.uk
Ffôn: **0870 190 6698**

Neu, ffoniwch Linell Gymorth CGC, Ffôn: **0845 345 9991**.

Peidiwch ag anghofio! Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeirlyfr System Mewnbynnu Data. Mae'r cyfeirlyfr diweddaraf ar gael ar wefan CGC. Ewch i'r parth Healthcare Providers a dewis 'reference manual for MDS v2' o ddewislen gwympo Data Entry.

Byw ei Bywyd i'r Ymylon - Persbectif Claf

Mae agwedd benderfynol a phositif Julia wedi ei helpu â'i hadferiad cyflym.

Ddwy flynedd yn ôl, yn drigain oed, roedd Julia'n llawn bywyd. Roedd hi'n mwynhau ei gwaith rhan amser fel menyw dosbarthu brechdanau, a'i gardd oedd ei phrif ddiléit. Byddai hi'n edrych ymlaen yn fawr at fisoedd yr haf pan allai dreulio amser yn cerdded o amgylch sioeau blodau yn edmygu gwaith caled pobl eraill. Doedd eistedd yn gyfforddus i wylio'r teledu yn ystod y dydd a phaned yn ei llaw ddim yn rhan o'r darlun o gwbl.

Ond dechreuodd Julia fynd i drafferthion wrth geisio cynnal ei dull bywiog o fyw. Yn anad dim, sylwodd bod treulio amser â'i ŵyr bychan, Sam, a sefyll i goginio am unrhyw gyfnod o amser yn bethau a oedd yn achosi poen yn ei chlun dde. Roedd y boen yn gwneud tasgau bob dydd yn anodd, nes ei bod yn teimlo'n flinedig ac yn rhwystredig. Roedd teulu Julia wedi sylwi ei bod yn cael anhawster, a theimlent ei bod yn amser iddi fynd i weld ei meddyg.

Cymryd pwyll

Pan aeth i ymweld â'i meddyg, trafodwyd y posibilrwydd bod ganddi arwyddion cynnar fod cymal ei chlun yn methu. Awgrymodd y meddyg y dylai Julia gymryd tabledi i weld a fyddai pethau'n gwella. Ond yn anffodus, gwaethygu wnaeth y boen, a dirywiodd ei gallu i symud o gwmpas. Roedd yn amser iddi fynd yn ôl i weld y meddyg. Trefnodd y meddyg iddi gael pelydr-X yn ei hysbyty lleol, ac fe gadarnhaodd hyn ofnau'r meddyg. Roedd cyflwr clun dde Julia yn dechrau dirywio.

Atgyfeiriodd ei meddyg hi at lawfeddyg orthopaedig fis Mehefin 2003. Cadarnhaodd y llawfeddyg bod ei chlun dde yn dirywio ac y byddai angen cymal newydd rhannol i'w chlun. Disgrifia Julia ei llawfeddyg fel rhywun 'rhagorol, *charmer* go iawn'. Dywedodd wrthi y byddai hi ar restr aros y GIG ac y byddai'n rhaid iddi aros chwech i naw mis cyn cael apwyntiad. Roedd Julia am fynd yn ôl at ei bywyd arferol cyn gynted â phosibl, felly gofynnodd am gael mynd ar y rhestr i gael llawdriniaeth pe byddai rhywun arall yn canslo.

Cyfnod o ansicrwydd

Aeth chwe mis heibio, a derbyniodd Julia wahoddiad i fynd am apwyntiad i weld ei meddyg ymgynghorol. "Fyddwch chi'n barod am eich llawdriniaeth ymhen pum niwrnod?" gofynnodd ei llawfeddyg. Cafodd Julia fraw i gychwyn; roedd wedi credu y byddai ganddi fwy o amser i ymgyfarwyddo â'r syniad pan fyddai'r diwrnod yma'n cyrraedd. Anfonodd ei meddyg ymgynghorol hi i gael pelydr-X arall. Dangosodd yr ail belydr-X fod clun Julia wedi dirywio cymaint yn ystod y chwe mis diwethaf fel bod angen cymal cyfan newydd yn ei chlun. Gwyddai pa mor bwysig oedd hi i gael y driniaeth cyn gynted â phosibl, ond roedd angen ychydig yn fwy o amser arni i baratoi. Canslodd y llawdriniaeth, ond roedd yn ddigon ffodus i gael apwyntiad arall am yr wythnos ganlynol. Rhoddodd hyn amser iddi wneud trefniadau a pharatoi ar gyfer y Nadolig. Er mai'r GIG oedd yn talu am ei llawdriniaeth, ysbyty annibynnol oedd yn gyfrifol am y driniaeth, fel rhan o'r fenter i gwtogi ar hyd rhestrau aros y GIG.

Pan wawriodd diwrnod y lawdriniaeth, gwnaeth staff yr ysbyty a'r llawfeddyg i Julia deimlo'n hapusach ac yn fwy cyfforddus ynglŷn â chael y driniaeth. Esboniodd Julia, "Roeddwn i'n teimlo'n bryderus iawn i gychwyn; doedd gen i'r un syniad beth i'w ddisgwyl ar ôl y llawdriniaeth, ond alla' i ddim canmol y staff ddigon am eu cefnogaeth."

Adferiad

Lliniarwyd ofnau Julia ar ôl y llawdriniaeth, roedd ei chlun braidd yn ddolurus, ond roedd hi'n sicr y byddai hynny'n gwella ac y byddai popeth yn iawn eto cyn bo hir. "Roeddwn i wedi gobeithio y byddai modd gwneud y cyfan drwy lawdriniaeth 'twll clo', sy'n wirion, rwy'n cyfaddef. Yn y diwedd fe ges i 29 o glipiau.

Aeth y llawdriniaeth rhagddi yn dda, a gwnaeth Julia gynnydd da, felly dim ond am bum niwrnod roedd angen iddi fod yn yr ysbyty. Roedd hi'n ofnus ac yn nerfus ynghylch mynd adref oherwydd ei bod hi'n byw ar ei phen ei hun a doedd hi ddim yn siŵr sut y byddai hi'n ymdopi.

Tra roedd Julia yn yr ysbyty fe aseswyd ei chartref gan ystyried ei hanghenion. Rhoesant gyfarpar i godi lefel sedd y toiled iddi, a bachwr â dolen hir, ond wedi mynd adref, cafodd fod y cymhorthion cartref yn anobeithiol. Esboniodd ei bod wedi cael digon o wybodaeth a gofal cyn y llawdriniaeth ond unwaith iddi ddychwelyd i'w chartref, teimlodd fod angen mwy o help a chefnogaeth arni.

Dechrau dal i fyny

Mae agwedd benderfynol a phositif Julia wedi ei helpu â'i hadferiad cyflym. Gwta bum wythnos yn ôl y cafodd Julia ei chymal newydd cyflawn yn ei chlun, ac mae hi eisoes wedi cael budd ohono. Unwaith yn rhagor mae hi'n edrych ymlaen at gerdded o amgylch Sioe Flodau Chelsea gan fwynhau'r golygfeydd a'r arogleuon hyfryd yn ddi-boen. Nid yw hi'n gallu gyrru eto, ond mae hi'n llwyddo i symud o amgylch y tŷ lawer yn haws. Mae'n bosibl y bydd angen i Julia gael cymal newydd yn ei chlun chwith yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, ond os digwydd hyn, mae hi'n credu y bydd y manteision yn gryfach nag anghysur y llawdriniaeth.